# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 02/12/2009

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

**Cynnwys**

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Gwasanaeth Ambiwlans Cymru

**C10 Paul Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaeth ambiwlans Cymru? OAQ(3)1312(HSS)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Hoffwn eich cyfeirio at fy natganiad ar wasanaeth ambiwlans Cymru a gyhoeddais yn gynharach heddiw.

### Cefnogaeth ar gyfer Gofalwyr Ifanc

**C11 Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth ar gyfer gofalwyr ifanc? OAQ(3)1348(HSS) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol.***

**Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas):** Mater i'r awdurdodau lleol ac asiantaethau cyfrifol eraill yw asesu anghenion gofalwyr ifanc yn eu hardaloedd, a phennu pa wasanaethau a threfniadau cymorth y dylid eu sefydlu i ddiwallu'r anghenion hynny a aseswyd.

### Lensys Ceratoconws

**C12 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion am nifer y bobl yng Nghymru sy'n cael gosodwr/ymarferydd lensys ceratoconws i osod lensys iddynt a'u rheoli? OAQ(3)1356(HSS)

**Edwina Hart:** Nid yw'r wybodaeth honno yn cael ei dal yn ganolog.

### Gwasanaethau Deintyddol y GIG yn y Gogledd

**C13 Brynle Williams:** Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer darparu gwasanaethau deintyddol y GIG yn y gogledd? OAQ(3)1346(HSS)

**Edwina Hart:** Fy mlaenoriaethau ar gyfer gogledd Cymru, ac ar gyfer Cymru gyfan mewn gwirionedd, yw parhau i wella mynediad at wasanaethau, atgyfnerthu gwasanaethau deintyddol cymunedol, a chyflenwi gwasanaethau sy'n rhoi mwy o ffocws ar iechyd y cyhoedd er mwyn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb o ran iechyd y geg, ac, wrth wneud hynny, bodloni ein hymrwymiad yn 'Cymru'n Un'.

### Darpariaeth Bydwragedd

**C14 Bethan Jenkins:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am lefelau darpariaeth bydwragedd ledled Cymru? OAQ(3)1305(HSS)

**Edwina Hart:** Yn ôl cyfrifiad mis Medi 2008, yr oedd 1,645 o fydwragedd mewn swyddi yng Nghymru. Nid yw ffigurau 2009 ar gael ar hyn o bryd.

### Pobl sy'n Dioddef Strôc

**C15 Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth gwasanaethau i bobl sy'n dioddef strôc ym Mhowys? OAQ(3)1328(HSS)

**Edwina Hart:** Yr wyf yn disgwyl i Fwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys gynllunio, sicrhau a chyflenwi gwasanaethau strôc sy'n diwallu anghenion y bobl sydd mewn perygl o ddioddef strôc, neu sydd eisoes wedi dioddef strôc, yn unol â'r safonau cenedlaethol cyhoeddedig.

## Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

### Swyddi yn y Gorllewin

**C10 Paul Davies:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i greu swyddi yn y gorllewin? OAQ(3)1264(ECT)

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sefydlu fframwaith ar gyfer creu swyddi ledled Cymru. Mae hynny'n cynnwys darparu ystod o gymorth a fydd yn cael ei gyflenwi drwy, er enghraifft, Cymorth Hyblyg i Fusnes, y gronfa fuddsoddi sengl, a phrosiect 'workways' yn y de-orllewin, a gafodd ei gyhoeddi yn ddiweddar.

### Seilwaith Trafnidiaeth

**C11 Mick Bates:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer prosiectau seilwaith trafnidiaeth yn y canolbarth? OAQ(3)1278(ECT)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae fy mlaenoriaethau strategol yn cael eu hamlinellu yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol, ac maent yn cynnwys gwella dibynadwyedd a diogelwch y rhwydwaith cefnffyrdd, yn ogystal â chyflwyno gwasanaethau ychwanegol ar brif linell y Cambrian. Mae manylion y blaenoriaethau lleol i'w gweld yng nghynllun trafnidiaeth rhanbarthol Trafnidiaeth Canolbarth Cymru, yr wyf yn ei ystyried ar hyn o bryd.

### Blaenoriaethau Adfywio

**C12 Trish Law:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am flaenoriaethau adfywio Llywodraeth Cynulliad Cymru ym Mlaenau Gwent? OAQ(3)1248(ECT) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog dros Adfywio***.

**Y Dirprwy Weinidog dros Adfywio (Leighton Andrews):** Yr ydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid i sicrhau adfywiad ym Mlaenau Gwent, fel rhan o raglen ehangach Blaenau'r Cymoedd. Y blaenoriaethau o hyd yw adfywio hen safle gwaith dur Glynebwy, a chefnogi pobl i gael mwy o gyfleoedd cyflogaeth.

## Rhannu Canfyddiadau Ymchwil a Datblygu

**C13 Bethan Jenkins:** A wnaiff y Gweinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf am y rheolau sy’n ymwneud â rhannu canfyddiadau ymchwil a datblygu ar gyfer y rheini sydd wedi cael grantiau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ(3)1255(ECT)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae’r rheolau sy’n gysylltiedig â rhannu canfyddiadau ymchwil a datblygu yn cydymffurfio â fframwaith y gymuned ar gyfer cymorth gwladwriaethol ar gyfer ymchwil a datblygu ac arloesi, fel a nodir gan y Comisiwn Ewropeaidd. Hefyd, mae hawl gan gwmnïau i ddiogelu a pherchenogi unrhyw eiddo deallusol sy’n deillio o’r gwaith ymchwil y maen nhw wedi ei gynnal drwy gymorth grant.

## Busnesau Bach a Chanolig eu Maint

**C14 Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i fusnesau bach a chanolig? OAQ(3)1286(ECT)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yr ydym yn darparu ystod eang o gymorth i fusnesau bach a chanolig eu maint drwy gyfrwng Cymorth Hyblyg i Fusnes, a ategir gan y gronfa fuddsoddi sengl. Yr ydym yn awr yn ystyried ein blaenoriaethau er mwyn cefnogi busnesau mewn awyrgylch a fydd wedi newid ac wedi gwella ar ôl y dirwasgiad.

## Busnesau Entrepreneuraidd

**C15 Sandy Mewies:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i sicrhau bod busnesau entrepreneuraidd yn cael eu hannog i ddod â’u harbenigedd i Gymru? OAQ(3)1290(ECT)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yr ydym yn parhau i gynnig cymorth hyblyg, ymarferol ac ariannol i annog busnesau entrepreneuraidd i ddod â’u harbenigedd i Gymru. Mae hyn yn cael ei ystyried fel rhan o raglen adnewyddu’r economi i sicrhau bod y polisïau a’r strwythurau cywir ar waith i adeiladu economi fwy cynaliadwy yn dilyn y dirwasgiad.